**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 MEHEFIN 2023

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyfrifon Terfynol 2022/23 – Alldro Refeniw

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

**Gofynnir i'r Cabinet:**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2022/23.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **100** |
| **Plant a Theuluoedd** | **76** |
| **Addysg** | **(96)** |
| **Economi a Chymuned** | **0** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **100** |
| **Amgylchedd** | **6** |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **0** |
| **Tai ac Eiddo** | **0** |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **(17)** |
| **Cyllid** | **(10)** |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **(16)** |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2)** -

- Yn yr Adran Addysg, fod £1,304k o gostau ychwanegol chwyddiant trydan a chyflogau cymorthyddion a staff gweinyddol yn yr ysgolion sydd uwchlaw'r gyllideb yn cael eu cyllido o falansau'r ysgolion unigol.

- Yn yr Adran Tai ac Eiddo fod £2,482k o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd.

- Cymorth ariannol o £550k i'r Adran Economi a Chymuned gan fod sgil effaith Covid wedi amharu ar lefelau incwm Cwmni Byw'n Iach.

- Yr adrannau canlynol sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un-tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario 'mlaen gan yr Adran i £100k:
  - £3,785k - Oedolion, Iechyd a Llesiant
  - £2,434k - Priffyrdd a Bwrdeistrefol

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
  - defnyddio (£2,851k) o'r tanwariant net Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.
  - fod (£3,899k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
  - gyda gweddill y tanwariant net o (£952k) ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan gynaeafu (£3,918k) o gronfeydd a'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2022/23'. Ar ddiwedd y flwyddyn mae saith adran yn gorwario, gyda phump ohonynt yn gorwario'n sylweddol.

2.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.3 uchod.

2.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, rhagwelwyd diffyg o £4.3m. Ers hynny, bu i sefyllfa gorwariant y maes gofal oedolion, gwastraff a digartrefedd ddwysau ond fod y sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.4 **Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2022/23 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.**

## 3. Covid

3.1 Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 a £17.5 miliwn bellach yn 2021/22. Bu modd i Awdurdodau Lleol hawlio o gronfa caledi Llywodraeth Cymru i'w digolledu yn 2020/21 ac yn 2021/22, ond gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben, mae'r pwysau wedi disgyn ar y Cyngor yn 2022/23.

3.2 Er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.

## 4. Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod £33 miliwn, sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

4.2 Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £921k wedi llithro, tra bod £608k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## 5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adroddir ar sefyllfa gorwariant gan 7 adran sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion, chwyddiant cyflogau uwchlaw lefel y gyllideb, lleihad mewn incwm o ganlyniad i effaith ariannol Covid, prisiau cynyddol trydan ynghyd â nifer o faterion eraill. Mae'r tueddiad yn parhau ac yn dwysau gyda phwysau sylweddol yn y maes gofal oedolion, gwastraff a digartrefedd. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

5.2 **Adran Oedolion Iechyd a Llesiant**

Y gorwariant wedi cynyddu i £3.9 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £921k o arbedion. Defnydd cynyddol o staff asiantaeth mewn gwahanol feysydd hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a adroddir. Pwysau ar lety cefnogol a phecynnau taliadau uniongyrchol yn faterion yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn ac yn Anabledd Dysgu tra bod staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yng Ngofal Cymunedol.

5.3 **Adran Addysg**

Gorwariant o £1.2m gan yr Adran Addysg. Yn yr ysgolion effaith cost ychwanegol chwyddiant cymorthyddion a staff gweinyddol £690k ac effaith prisiau trydan uwch £614k uwchlaw'r gyllideb eleni. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i £1miliwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol o £1,304k eleni. Yn ystod y flwyddyn mae pwysau cynyddol yn dod yn fwy amlwg ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion.

5.4 **Byw’n Iach**

O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4 miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith ariannol Covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23. Gwerth y cymorth sydd ei angen yw £550k, sydd yn lleihad o'r amcan o £839k yn ystod y flwyddyn.

5.5 **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Roedd gwariant un-tro a phwysau cynyddol ar y gyllideb gwasanaethau Priffyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Mae’r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £608k, gyda £335k ohono yn y maes gwastraff.

5.6 **Adran Tai ac Eiddo**

Oblygiadau newid deddfwriaethol yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu fod y pwysau ariannol sylweddol yn parhau. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil Covid y Cyngor eisoes wedi ei roi i gynorthwyo’r sefyllfa, adroddir ar orwariant net o £2.5 miliwn eleni.

5.7 **Corfforaethol**

Adroddir ar danwariant ar Gorfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 a newid i ddeddfwriaeth trethiant sydd wedi cyfrannu at gynnyrch treth ychwanegol, wrth i dai drosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor. Lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Derbyniad grantiau a llithriadau ar gynlluniau cyfalaf wedi golygu fod angen llithro’r arian refeniw cysylltiedig. Effaith y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog wedi arwain at dderbyniad llog gwerth £1.3 miliwn ychwanegol. Nid oedd y pwysau ar nifer o gyllidebau cymaint â’r hyn a ragwelwyd.

5.8 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna pum cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2022/23.

5.9 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2022/23 yn unig.

5.10 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2023/24, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2023/24 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi lleihau £4.8m, sef o £16.7m yn 2021/22 i £11.9m yn 2022/23. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith Covid a derbyniad grantiau sylweddol, ond eu bod bellach yn lleihau gyda rhagolygon o leihad pellach erbyn diwedd 2023/24 ac yn ôl i lefelau arferol. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb). Mae sgil effaith Covid o ran cronfeydd uwch na'r arferol yn parhau a bydd rhaid ystyried hyn wrth drafod gyda'r ysgolion.

6.3 Mae dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

## 7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.7 a rhan olaf **Atodiad 2**.

7.2 Adroddir ar danwariant o £7,702k ar benawdau Corfforaethol. Awgrymir y dylid gwneud trosglwyddiad o £3,899k cysylltiedig â chyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf. Awgrymir fod £2,851k o'r tanwariant net yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario a'r £952k sydd yn weddill i'w drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio.

7.3 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £3,918k o adnoddau, fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**. O ystyried y sefyllfa gorwariant gan rai o'r adrannau, ystyrir ei bod yn briodol fod y cyfan yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol eleni.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2022/23. Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

8.2 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

8.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2022/23 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Mae'r adroddiad all-dro drafft wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Mai.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - Adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd